


Cynllun Cyfathrebu Biosffer Dyfi – 16.i.14

# Biosffer Dyfi Biosphere

*gwerth y byd - world class by nature*



## Cynnwys

- Cyflwyniad – sy'n egluro diben y ddogfen
- Beth yw Biosffer Dyfi – Gweledigaeth ac amcanion
- Negeseuon allweddol – beth sydd angen ei ddweud, gyda nodiadau a ffeithiau allweddol
- Cynulleidfaoedd – gyda phwy sydd angen cyfathrebu
- Targedu negeseuon – perthnasu'r negeseuon a'r cynulleidfaoedd, ac yn blaenoriaethu
- Cynllun gweithredu
- Brandio – cyfarwyddyd ynglŷn â logo Biosffer Dyfi a mwy
- Monitro

## Cyflwyniad

Dogfen fyw yw'r cynllun hwn, wedi ei fabwysiadu gan grŵp cyfathrebu Biosffer Dyfi fis Ionawr ar ran Partneriaeth Biosffer Dyfi ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth 2015 – bydd angen creu fersiwn wedi ei ddiwygio ar gyfer fis y cyfnod o fis Ebrill 2015 ymlaen. Bydd y cynllun yma'n berthnasol i bob grŵp sy'n gweithio dan enw “Biosffer Dyfi” a'i bwriad yw cyfeirio at a chefnogi'r gwaith cyfathrebu'r grwpiau hynny. Trwy amlygu lle mae negeseuon y gwahanol grwpiau yn or-gyffwrdd gall gryfhau'r neges gyffredinol.

## Beth yw Biosffer Dyfi – Gweledigaeth ac Amcanion

Statws ar gyfer ardal trwy bartneriaeth yw Biosffer Dyfi, sy'n gweithio tuag at y weledigaeth ganlynol:

**“Bydd Biosffer Dyfi yn cael ei hadnabod a’i pharchu yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol am amrywiaeth ei phrydferthwch naturiol, ei threftadaeth a’i bywyd gwyllt, ac am ymdrechion ei phobl i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fyd mwy cynaliadwy. Bydd yn gymuned hunan-hyderus, iach, gofalgarn a dwyieithog, a gefnogir gan economi leol, gref.”**

### ***Amcanion Biosffer Dyfi***

1. Cadw a gwella’r ardal fel lle gwych i fyw, gweithio a magu plant – ac i greu mwy o gyfleoedd iddynt fedru aros yma
2. Gosod mwy o werth ar ein hamgylchedd naturiol ac ar ddiwylliant yr iaith Gymraeg
3. Cynyddu’r gweithgaredd mewn gwarchodaeth natur trwy ddulliau gwirfoddol
4. Annog trafodaeth, cytundeb a chydweithrediad
5. Datblygu economi fydd yn fwy hunan ddibynnol; llai dibynnol ar danwydd ffosil, gyda thyfiant a yrrir gan wybodaeth ac adnoddau lleol
6. Datblygu ardal fydd yn fwy cynaliadwy; gyda’r trigolion a’r ymwelwyr yn dewis nwyddau a gynhyrchir yn

lleol yn amlach, a lleihau ein heffaith ar y byd

7. Defnyddio 'brand' y Biosffer i hyrwyddo ansawdd cynnyrch amaethyddol a chynhyrchion eraill a phrofiadau twristiaeth
8. Sicrhau addysg a hyfforddiant mewn datblygu cynaliadwy, yn ogystal ag ymchwil mewn gwyddorau naturiol a chymdeithasol sy'n cefnogi gweledigaeth y Biosffer
9. Manteisio ar gymorth a chynghor gan UNESCO a Gwarchodfeydd Biosffer eraill ar draws y byd

## **Negeseuon allweddol**

Mae angen canolbwyntio ar 3-5 neges allweddol ar y tro. Dyma awgrymiadau dechreuol ar gyfer 2014-2015:

1. Ardal yw Biosffer Dyfi sy'n cynnwys llefydd lle mae pobl yn byw ac yn gweithio (e.e. Aberystwyth, Machynlleth). *Rydych chi ym Miosffer Dyfi!*
2. Mae Biosffer Dyfi yn un o deulu byd-eang o "Warchodfeydd Biosffer" gyda chydabyddiaeth gan UNESCO
3. Mae **gweledigaeth** ar gyfer yr ardal
4. Mae ardal Biosffer Dyfi yn cynnig profiadau gwyrdd, diwylliannol i ymwelwyr
5. Gall ecosystemau cryf fod yn rhan o well reoli tir, er lles natur, cymunedau a ffermwyr

### **Neges allweddol 1. Diffinio'r Ardal**

Mae rhychwant yr ardal yn neges allweddol yn ei hun. Dull gweledol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfleu hynny.

Mae'r mapiau canlynol ar gael ar hyn o bryd:

- Map dehongli – nid yw'n gywir yn ddaearyddol ond mae'n cyfleu siâp dalgyllch afon Dyfi, y tirlun a'r prif drefi a phentrefi
- Map google sy'n dangos amlinelliad ardal Biosffer Dyfi:  
<https://maps.google.co.uk/maps/ms?msa=0&msid=213697158492283198472.0004d6de745ecd18593c6&ie=UTF8&t=h&ll=52.603048,->

[3.927612&spn=0.400343,0.822601&z=10&source=embed](https://www.unesco.org/whc/nominations/3.927612&spn=0.400343,0.822601&z=10&source=embed)

- Y “map rhanbarthau” a baratowyd fel rhan o'r cais i UNESCO. Dylid **osgoi** defnydd o'r map hwn, dim ond i'w defnyddio ar gyfer cynulleidfa dechnegol neu wrth egluro **hanes** y cais.
- Map a baratowyd gan y Cyngor Cefn Gwlad Gynt, sy'n dangos yr ardal ar gefndir map arolwg ordnans.

Lle nad yw'n bosib dangos map, dylid pwysleisio maint yr ardal – gan osgoi cyfeirio ato gan ddefnyddio'r termau Dyffryn Dyfi / Bro Ddyfi yn unig, gan y gellid dehongli hynny i gyfeirio at ardal lai – mae'r canlynol yn dderbyniol er enghraifft “*Mae ardal Biosffer Dyfi yn ymestyn o Aberdyfi i Lanbrynmair, ac o Lanymawddwy i Aberystwyth.*” neu “*Mae ein hardal ni yma ym Mro Ddyfi, Aberystwyth a'r cyffiniau wedi ei chydabod gan UNESCO fel Gwarchodfa Biosffer*”.

Mae arwynebedd arwyneb Biosffer Dyfi oddeutu 72,000 hecтар.

### **Neges Allweddol 2. Teulu UNESCO**

- Derbyniodd yr ardal y statws (newydd) yn 2009
- Mae'n un o 621 (ffigur yn newid pob mis Mai) Gwarchodfa Biosffer dan gynllun Dyn a'r Biosffer UNESCO

### **Neges Allweddol 3. Gweledigaeth - nodiadau**

Dyma ddatganiad gweledigaeth Biosffer Dyfi yn ei ffurf derfynol:

**“Bydd Biosffer Dyfi yn cael ei hadnabod a’i pharchu yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol am amrywiaeth ei phrydferthwch naturiol, ei threftadaeth a’i bywyd gwyllt, ac am ymdrechion ei phobl i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fyd mwy cynaliadwy. Bydd yn gymuned hunan-hyderus, iach, gofalgarn a dwyieithog, a gefnogir gan economi leol, gref.”**

Dyma eglurhad / dehongliad pellach o rai geiriau yn y Weledigaeth:

- “adnabod a’i pharchu yn rhyngwladol...” statws dan gynllun Dyn a'r Biosffer sy'n rhan o UNESCO, yr un corff

sy'n dynodi safleoedd treftadaeth y byd ac ati. Mae sawl safle o bwysigrwydd rhyngwladol, sef safle RAMSAR, Ardal Warchoddedig Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, gan gynnwys Ardal Gadwraeth Arbennig Forol.

- “adnabod a'i pharchu... yn genedlaethol” Mae 34 Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn yr ardal ynghyd â Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi.
- “adnabod a'i pharchu... yn lleol” Ardal lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r amgylchedd.
- “prydfwrthwch naturiol” arfordir, mynyddoedd, tirlun
- “bywyd gwylt” cynefinoedd hygyrch (e.e. Coedwigoedd...) yn ogystal â'r ardaloedd gwarchoddedig a rhywogaethau “eiconig” fel gweilch pysgod.
- “ymdrechion ei phobl i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fyd mwy cynaliadwy” gan gynnwys gwaith rhwydweithiau, unigolion, a sefydliadau megis CAT, ac ymchwil perthnasol a wneir yma gan Brifysgol Aberystwyth ac eraill.

#### ***Neges allweddol 4 – Profiad ymwelwyr***

(cf. *Dyfi Biosphere Destination Plan*, yn enw. Adran 4. *Positioning and markets*)

#### ***Neges allweddol 5 – Gwasanaethau ecosystemau***

Bydd y neges yma'n cael ei ddatblygu ymhellach fel rhan o brosiectau'n ymwneud â defnydd tir.

## Cynulleidfaoedd

Mae'r gynulleidfa darged yn cynnwys (i) trigolion yr ardal (ii) ymwelwyr (iii) mudiadau, cwmnïau a chyrff eraill perthnasol. Mae'r grwpiau thematig a grwpiau eraill sy'n gweithio dan enw Biosffer Dyfi hefyd yn gynulleidfa fewnol.

## Trigolion yr ardal

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 26,000 o bobl yn byw o fewn ardal Biosffer Dyfi, sy'n cynnwys rhannau o ardaloedd awdurdodau lleol Gwynedd, Powys a Cheredigion. O'r boblogaeth yma, mae

- 41% yn gallu siarad Cymraeg (gyda hyd at 60% yn rhannau o Fro Ddyfi).
- dros hanner yn byw yn Aberystwyth a'i faestrefi (mae Penparcau, ond nid Llanbadarn, o fewn ffiniau'r ardal), gan gynnwys nifer sylweddol o fyfyrwyr prifysgol.
- canran gymharol uchel yn gweithio ym maes amaeth, coetiroedd a physgota.
- carfan â diddordeb mewn cynaliadwyedd amgylcheddol – lleolir CAT, Dulas cyf. a mentrau perthnasol eraill yn yr ardal.

Er bod ffiniau ardal Biosffer Dyfi wedi eu diffinio'n fanwl at ddibenion y cais i UNESCO, mae mynd â dod sylweddol gyda chymunedau sy'n ffinio â Biosffer Dyfi. Mae gan Gomins Coch a Llanbadarn cysylltiad agos ag Aberystwyth, a Thywyn gydag Aberdyfi, felly dylid ystyried trigolion yr ardaloedd hyn yn ran o'r gynulleidfa leol at ddibenion cyfathrebu.

Gellid cysylltu â phobl leol trwy'r canlynol hefyd:

- Busnesau'r ardal

- Grwpiau a mudiadau gwirfoddol yr ardal
- Sefydliadau addysg yr ardal: 16 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Ceredigion, CAT. Mae pobl ifanc sy'n byw yn yr ardal hefyd yn mynychu Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Powys, ac ysgolion Tywyn.

## **Ymwelwyr**

Mae ymwelwyr o rannau eraill o Gymru, yn ogystal ag o weddill y DU a thu hwnt, yn gwneud cyfraniad pwysig i economi'r ardal. Nid oes niferoedd manwl, diweddar ar gael, ond amcangyfrifir bod oddeutu 1.0 miliwn ymweliad diwrnod pob blwyddyn, gyda 290,000 ymweliad dros nos.

## **Mudiadau, cwmnïau a chyrrff eraill perthnasol**

Mae gan y cyrrff canlynol berthynas swyddogol gyda Biosffer Dyfi fel aelodau o Bartneriaeth Biosffer Dyfi. Mae'n flaenoriaeth felly sicrhau eu bod yn trosglwyddo negeseuon Biosffer Dyfi yn fewnol ac yn allanol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Llywodraeth Cymru
- **ecodyfi**
- Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Yr 13 Cyngor Cymuned a'r 2 Gyngor Tref o fewn yr ardal (er mai dim ond 3 ar y tro a gynrychiolir)



- Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Prosiectau a sefydliadau sydd wedi defnyddio statws / brand Biosffer Dyfi yn eu gwaith:

- Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn
- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- COBWEB, a arweinir gan brifysgol Caeredin.

Fel safle â dynodiad UNESCO, mae perthynas â'r canlynol hefyd yn bwysig:

- Pwyllgor MAB-UK, sy'n cydlynu Gwarchodfeydd Biosffer y Deyrnas Gyfunol
- Pwyllgor Cenedlaethol UNESCO'r Deyrnas Gyfunol
- EuroMAB, rhwydwaith gwarchodfeydd biosffer Ewrop a Gogledd America
- Dynodiadau UNESCO eraill yng Nghymru
- Gwarchodfeydd Biosffer eraill: yn benodol Urdaibai, Gwlad y Basg, lle mae awgrym creu dolen ffurfiol.

## Targeddu negeseuon

Mae'r tabl canlynol yn perthnasu'r negeseuon allweddol i'r gwahanol gynulleidfaoedd

	Pobl leol - cyffredinol	Amaethwyr	Grwpiau cymunedol / gwirfoddol	Busnesau lleol	Ymwelwyr	Cyrff a sefydliadau
1. Rychwant yr ardal	A					Dd
2. Teulu UNESCO						
3. Gweledigaeth			C	Ch		E
4. Profiad i ymwelwyr					D	
5. Gwasanaethau Ecosystemau		B				

Ein nod yn y pen draw yw bod pawb yn deall beth yw Biosffer Dyfi, felly mae pob neges yn berthnasol i bob cynulleidfa. Fodd bynnag, bydd angen canolbwyntio ymdrechion ar gyfathrebu negeseuon i'r cynulleidfaoedd mwyaf perthnasol (gwyrdd / melyn), ac yn arbennig ar y 7 flaenoriaeth cyfathrebu A-E (gwyrdd).

## Cynllun gweithredu

Mae'r cynllun isod yn amlinellu gwahanol weithgareddau

Arf	Neges euon allwedol	Cynulleidfa darged	Adnoddau	Amserlen	Pwy sy'n arwain
Map dehongli a'i osod ar nifer o safleoedd	1	Pobl leol, ymwelwyr	£4,000 i law (dylunio a gosod ym Mhowys)  £3,790 gan Gronfa Eleri i weithio gyda chymunedau a'u gosod yng Ngogledd Ceredigion  Angen cytundeb gyda lleoliadau eraill. Angen cyllid i'w gosod yng Ngwynedd	Ar waith, 2013-14	ecodyfi; rheolwyr safleoedd (RSPB, Cadw, busnesau)
Pamffled cyffredinol	1,2,3	Pobl leol, cyrff		Wedi eu hargraffu, 2013	ecodyfi
Wefan biosfferdyfi.org.uk	1, 2, 3, 4	Pob un	Tymor hir: wefan addasedig llawn £5k +  Tymor byr: datblygu gwefan Drupal (oriau RCF, cymorth trwy COBWEB)		ecodyfi, EDINA
Sticeri ceir	B	Pobl leol		2013 (1,000 i'w dosbarthu)	
Nwyddau – mygiau, bathodynau	B	Ymwelwyr (sydd â diddordeb		Trwy brosiect twristiaeth, Tachwedd 2013.	

		eisoes),cefn ogwyr		Yn fasnachol - 2014	
Sticeri mewn busnesau	1	Busnesau, pobl leol, ymwelwyr			
Baneri ar gyfer busnesau	1	Pobl leol, ymwelwyr , busnesau	15 i'w archebu - cyfanswm cost o tua £500 (busnesau yn talu)	2014	ecodyfi, DBTA
Baneri mewn llefydd amlyg, e.e. Prom Aberystwyth, adeiladau cyrff cyhoeddus	1	Pobl leol, ymwelwyr	(angen ymchwil)		
Gwybodaeth Biosffer Dyfi ar gyfer safleoedd busnesau + cymunedol	1, 3, 4	Pobl leol, ymwelwyr , busnesau, grwpiau	£??? poster i'w archebu	2013	ecodyfi, DBTA
Tudalen Facebook	(pob un)	Pobl leol, busnesau		crëwyd 2012	ecodyfi
Ffrwd Twitter	(pob un)	Pobl leol, sefydliada u		crëwyd 2012	ecodyfi
Cylchlythyrau	(pob un)	Pobl leol (hunan- ddewis), cyrff a sefydliadau		Achlysurol ar hyn o bryd	

		perthnasol			
Cyswllt gyda'r Papurau Bro (Dail Dysynni, Blewyn Glas, Papur Pawb, y Tincer, yr Angor)	1, 2, 3, 5	Pobl leol, siaradwyr Cymraeg			
Presenoldeb ar arwyddion ffyrdd	1, 4	Pobl leol, ymwelwyr			
Cynnal digwyddiad cyhoeddus amlwg	3				
Siarter Biosffer Dyfi - manteision	1	Busnesau a chymdeithasau			ecodyfi
Siarter Biosffer Dyfi	3, 4	Cwsmeriaid, aelodau cymdeithasau			ecodyfi
Brochure twristaidd	4	Darpar-ymwelwyr			Ecodyfi, DBTA

## Brandio

Dylai brand Biosffer Dyfi adlewyrchu nid yn unig gwaith y Bartneriaeth a phrosiectau sy'n gweithio dan yr enw, ond natur a gwerthoedd yr ardal a'r statws yn gyffredinol.

## Gwerthoedd

Roedd gofyn i'r logo a grëwyd trwy gystadleuaeth fod y ddeallus o ran y cysyniadau canlynol: cydbwysedd, gofod,

naturiol, amgen, harddwch, ysbrydoliaeth, amrywiaeth diwylliannol ac egni, cysylltu â natur, gwahoddiad i brofi, real. Nid yw'r gwerthoedd hyn wedi eu profi'n ddiweddar na'u defnyddio'n helaeth. Fe'u datblygwyd o frandio twristiaeth Canolbarth Cymru.

## **Hunaniaeth weledol**

Dylai unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd gael ei baratoi yn ofalus – rhaid cyfleu delwedd broffesiynol heb fod yn gorfforaethol ei naws. Mae'r elfennau gweledol yma'n ffurfio rhan o frand cyhoeddus Biosffer Dyfi:

- Yr arfbais, a ellid defnyddio ar ben ei hun, neu fel rhan o'r logo (gweler isod)
- Palet lliw yn seiliedig ar liwiau'r logo, melyn (#FFD320), glas (#00709E), gwyrdd (#277600FF), a lliwiau wedi eu deillio o'r rhain, ar gefndir gwyn.
- Ffont “Futura Book”
- Logo Biosffer Dyfi: mae i'r logo 3 elfen ganlynol:
  - Y teitl dwyieithog “Biosffer Dyfi Biosphere”
  - Yr arwyddair dwyieithog “gwerth y byd – world class by nature”
  - Yr arfbais pennwn/moryd/olion traed.

Ni ddylid gwahanu'r elfennau yma, gan eu bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn perthynas penodol. Dylai ymddangos ar gefndir gwyn, heb focs, os bosib; os oes rhaid defnyddio cefndir lliw, yna defnyddier fersiwn gyda bocs.

- Fersiwn unlliw: mewn gwaith argraffu unlliw dylid defnyddio fersiwn unlliw penodol yr arfbais neu'r logo.
- Logo amgen UNESCO: mae logo “UNESCO” ar gyfer Biosffer Dyfi, a ddyluniwyd gan Gomisiwn UNESCO y Deyrnas Gyfunol ac sy'n dilyn patrwm arferol logos gwarchodfeydd biosffer. O.N. nid oes caniatâd i ddefnyddio logo “parthenon” UNESCO ar ben ei hun dan unrhyw amgylchiadau. Dim ond Partneriaeth Biosffer Dyfi sy'n cael defnyddio logo UNESCO Biosffer Dyfi – gwnaed hynny'n achlysurol er mwyn

pwysleisio statws UNESCO'r ardal, e.e. ar adroddiadau.

***Cymeradwyaeth a chaniatâd***

[gweler “branding note,” “endorsements and associations”]

## Monitro

Does dim ymchwil trylwyr wedi ei wneud o ymwybyddiaeth o statws Biosffer Dyfi ymysg y cynulleidfa oedd targed er mwyn gosod gwaelodlin, ond noder:

- Fel rhan o brosiect rheoli coetir cymunedol yn 2013, ymatebodd 269 o drigolion Machynlleth a'r cyffiniau i holiadur oedd yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â Biosffer Dyfi. Roedd 64% yn gwybod eu bod yn byw mewn ardal Biosffer Dyfi UNESCO. O blith y rhai oedd yn ymwybodol, roedd 36% wedi gweld sôn amdano ar “bamffledi, arwyddion, ebyst neu facebook”. O blith y 36% doedd ddim yn ymwybodol, fyddai 54% yn “hoffi gwybod mwy amdano”.
- Gellir mesur a chofnodi defnydd o sianeli ar-lein Biosffer Dyfi, gan gynnwys tanysgrifwyr i'r rhestr e-bost (371), dilynwyr Twitter (274), y nifer sy'n hoffi ar Facebook (214), a'r nifer o ymwelwyr i'r wefan (e.e. 227 yn y mis Tachwedd 1af -Rhagfyr 1af 2013)

Bydd angen adolygu'r cynllun yma ar ôl blwyddyn - gan gynnwys asesu i ba raddau y llwyddwyd cyfathrebu'r negeseuon allweddol i'r cynulleidfa oedd targed.